**LC1494**

| ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR DEDDFAU | LEGISLATION COMMITTEE REPORT |
|---|---|

## The Firefighters' Compensation Scheme (Wales) Order 2007

Mae'r Gorchymyn hwn yn darparu ar gyfer cynllun iawndal newydd i ddiffoddwyr tân yng Nghymru. Mae'r cynllun newydd wedi'i nodi yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn ac, yn ddarostyngedig i'r darpariaethau sy'n ymwneud â rheol 3 o Ran 2, sy'n effeithiol o 1 Ebrill 2000 ymlaen, mae'n effeithiol o 1 Ebrill 2006 ymlaen. Mae'n cynnwys yn bennaf ddarpariaethau sy'n ymwneud â dyfarniadau am afiechyd ac anafiadau mewn perthynas â diffoddwyr tân, eu gwyr a'u gwragedd, eu partneriaid sifil, eu plant a'u dibynyddion eraill. Mae'n gymwys i aelodau'r cynllun presennol, sef Cynllun Pensiwn Diffoddwyr Tân 1992, ac i aelodau Cynllun 2007 sy'n cael ei gyflwyno gan orchymyn cydamserol.

## Rheol Sefydlog 11.7

Mae'r pwyntiau canlynol wedi'u nodi i fod yn destun adroddiad o dan Reol Sefydlog 11.7.

Mae'r diffiniad o "the Compensation Scheme" yn erthygl 1(3) yn cyfeirio at "the Schedule to this Order". Gan fod dwy atodlen, dylai'r cyfeiriad yma fod yn gyfeiriad at "Schedule 1 to this Order." [Rheol Sefydlog 11.7(v)]

Ceir nifer o groesgyfeiriadau at Ddeddf Nawdd Cymdeithasol 1975 a deddfwriaeth arall sydd wedi'i diddymu. Yr hyn a ddisgwylid yw cyfeiriadau at y ddeddfwriaeth gyfredol, ond os yw'r hen gyfeiriadau wedi'u cynnwys oherwydd y gydberthynas rhwng y cynllun yma a Chynllun Pensiwn 1992, byddai'n fuddiol pe bai hynny'n cael ei esbonio mewn troednodiadau priodol. [Rheol Sefydlog

11.7(v)]

Ym mharagraff 2(9) o Ran 8, ceir croesgyfeiriad at reol 3 o Ran 5, ond mae’r geiriau sy’n dilyn yn dangos mai at reol 4 y dylid cyfeirio. [Rheol Sefydlog 11.7(v)]

Ym mharagraff 3(2)(a) o Ran 10, ceir croesgyfeiriad at reol 11 o Gynllun 2007. Gan fod y Cynllun hwnnw wedi’i rannu’n Rhannau, dylid pennu pa Ran. [Rheol Sefydlog 11.7(v)]

Ym mharagraff 2(1) o Ran 1 o Atodlen 1 i’r Cynllun, ceir croesgyfeiriad at reol 4(3) o Ran 10 (o’r Cynllun), ond mae’r geiriau o’i flaen yn dangos mai at reol 4(4) y dylid cyfeirio. [Rheol Sefydlog 11.7(v)]

Mae Erthygl 2(2) ac Atodlen 2 yn gymwys fel bod y darpariaethau yng Nghynllun Pensiwn Diffoddwyr Tân 1992 sy’n cael eu disodli gan ddarpariaethau cyfatebol yn y Cynllun yn peidio â bod yn effeithiol. Mae Erthygl 4 o Orchymyn Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Cymru) (Diwygio) 2007 ac Atodlen 2 iddo yn cynnwys darpariaethau tebyg. Er hynny, mae’r tablau o ddarpariaethau cyfatebol a nodir yn y ddwy Atodlen yn wahanol. Mae’n ymddangos bod y ddau yn gywir, ond yn anghyflawn. Bernir y dylai’r ddwy Atodlen fod yr un fath â’i gilydd yn union, os bwriedir iddynt gael yr un effaith. [Rheol Sefydlog 11.7(v)]

Mân wallau drafftio neu fân wallau teipograffyddol yw’r rhain i gyd a byddai’n briodol eu cywiro drwy gyfrwng Memorandwm Cywiriadau.

Yn uniaith Saesneg y mae’r Gorchymyn wedi’i baratoi. O roi sylw i hyd a natur dechnegol y ddogfen, penderfynodd y Gweinidog nad oedd yn rhesymol ymarferol iddo gael ei wneud yn ddwyieithog. [Rheol Sefydlog 11.7(viii)]

Mae iaith ryw-benodol wedi’i defnyddio drwyddi draw, a hynny er mwyn sicrhau cysondeb â Gorchymyn Cynllun Pensiwn Diffoddwyr Tân 1992, y ceir llawer o groesgyfeiriadau ato yn y Gorchymyn yma. [Rheol Sefydlog 11.7(vii)]

## Sylwadau

Ceir nifer o gyfeiriadau at ddarpariaethau xA, a’r amlycaf o’r rhain yw Rhan 7A. Mae trefniadau o’r fath yn gyffredin wrth i ddeddfwriaeth ddiwygio fewnosod darpariaethau, ond ni ddisgwylid eu gweld mewn deddfwriaeth newydd fel hyn.

## David Melding AC

Cadeirydd y Pwyllgor Deddfau

## 20 Mawrth 2007